Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

**Dyfarniadau er Anrhydedd y Brifysgol**

1. Rheolir trefn dyfarnu Graddau a Chymrodoriaethau er Anrhydedd PCYDDS (y Brifysgol) gan Ordinhad III.

**Meini Prawf**

2. Yn unol ag Ordinhad III, gellir dyfarnu **Graddau er Anrhydedd** i unigolion hynod deilwng sy'n rhagorol yn eu maes. Fel arfer bydd unigolion o'r fath:

    a. wedi gwneud cyfraniad academaidd pwysig a pharhaus dros gyfnod hir o amser mewn maes sy'n berthnasol i'r Brifysgol; neu

    b. wedi cael eu cydnabod naill ai ar lefel genedlaethol neu ryngwladol am eu cyflawniadau rhagorol; neu

    c. wedi gwneud gwasanaeth rhagorol fel aelod o staff neu fel aelod o Gyngor y Brifysgol.

3. Yn unol ag Ordinhad III, bwriedir **Cymrodoriaethau er Anrhydedd** i gydnabod unigolion o fri arbennig yn eu meysydd eu hunain sydd wedi rhoi gwasanaeth neilltuol i'r Brifysgol. Bydd unigolion o'r fath:

    a. yn aelodau neu'n gyn-aelodau o'r Cyngor, neu'n gyn-aelodau o Gorff Llywodraethol unrhyw sefydliad rhagflaenol, neu'n aelodau neu'n gyn-aelodau o Gorff Llywodraethol Coleg cyfansoddol, neu

    b. yn gyn-aelodau staff neu'n gyn-fyfyrwyr y Brifysgol a'i sefydliadau rhagflaenol, sydd wedi ennill bri mewn meysydd priodol neu sydd wedi rhoi gwasanaeth neilltuol i'r Brifysgol neu'r gymuned; neu

    c. unigolion eraill nad ydynt yn aelodau o'r Brifysgol sydd o fri arbennig mewn meysydd priodol neu sydd wedi rhoi gwasanaeth neilltuol mewn meysydd o ddiddordeb i'r Brifysgol neu ei chymuned.

4. Mewn perthynas â 3. uchod, mae Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu'r Cyngor wedi penderfynu y rhoddir ystyriaeth i unigolion sydd wedi byw neu weithio yng Nghymru ac sydd wedi ennill bri yn eu dewis faes/feysydd arbenigedd a allai gynnwys gwasanaeth sylweddol yn y sector gwirfoddol; ac unigolion sydd wedi ennill bri mewn un neu fwy o'r meysydd astudio a geir ym mhortffolio cyrsiau'r Brifysgol.

5. Mae'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu hefyd wedi penderfynu y dylai derbynwyr yr holl wobrau fel arfer fod mewn sefyllfa i gael, neu ddatblygu, perthynas barhaus â'r Brifysgol ac i gyfrannu at fywyd y Brifysgol a'i chymunedau.

**Y Weithdrefn**

6. Bydd gwahoddiad i enwebu unigolion ar gyfer Graddau er Anrhydedd neu Gymrodoriaethau yn cael ei roi ar wefan y Brifysgol.

7. Rhaid gwneud enwebiadau gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir a'i chyflwyno i Glerc y Cyngor drwy llywodraethu@pcydds.ac.uk. Gofynnir i'r rhai sy'n cyflwyno enwebiadau nodi pa fath o ddyfarniad sydd fwyaf priodol i'r enwebai yn eu barn hwy er na fydd y Brifysgol wedi'i rhwymo gan yr ymateb a ddarparwyd. Os bydd angen rhagor o wybodaeth am enwebai ar y Brifysgol, cysylltir â'r unigolyn a gyflwynodd yr enwebiad.

8. Rhaid gwneud enwebiadau yn gwbl gyfrinachol ac ni ddylid cysylltu ag enwebeion ymlaen llaw i gael gwybod a fyddent yn debygol o dderbyn dyfarniad.

9. Ystyrir enwebiadau gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu y bydd ei aelodaeth yn cynnwys llywodraethwr-staff a llywodraethwr-fyfyriwr. Fel arfer, caiff enwebiadau eu hystyried yn flynyddol.

10. Mae gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu awdurdod dirprwyedig gan Gyngor y Brifysgol i gymeradwyo enwebiadau ac i benderfynu ar yr anrhydedd briodol sydd i'w dyfarnu. Bydd yn rhoi gwybod i'r Cyngor am yr hyn a gymeradwyir a bydd yr enwau'n cael eu rhyddhau yn fuan cyn y Cynulliad Graddio perthnasol.

11. Gall y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu gadw enwebiadau yn ôl i'w hystyried ymhellach ochr yn ochr â'r enwebiadau hynny a dderbynnir y flwyddyn ganlynol. Os bydd hyn yn digwydd, ni fydd y Brifysgol yn hysbysu'r unigolyn a gyflwynodd yr enwebiad.

12. Cysylltir ag enwebeion llwyddiannus yn uniongyrchol gan Swyddfa'r Is-Ganghellor ar ran Cadeirydd y Cyngor a'r Is-Ganghellor. Ni roddir adborth nac unrhyw ohebiaeth arall mewn perthynas ag enwebiadau nad ydynt wedi eu derbyn.

**Ystyried enwebiadau**

13. Mae'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu wedi penderfynu y dilynir y rheolau canlynol wrth ystyried enwebiadau ar gyfer dyfarniadau er Anrhydedd unigol:

    a. Ni chaiff staff na llywodraethwyr presennol, nac unrhyw un sy'n derbyn tâl gan y Brifysgol, eu hystyried fel rheol.

    b. Rhaid datgan unrhyw berthynas bersonol neu broffesiynol rhwng yr enwebydd a'r enwebai.

    c. Ni chyflwynir dyfarniadau fel rheol *in absentia*, gan mai gwedd bwysig o Ddyfarniad er Anrhydedd yw bod y derbynnydd yn bresennol mewn seremoni ddyfarnu, yn enwedig pan enwebwyd y derbynnydd yn fodel rôl i fyfyrwyr neu i gynrychioli Cenhadaeth a Gwerthoedd y Brifysgol. Os na fydd unigolyn a gymeradwywyd ar gyfer dyfarniad yn gallu mynychu seremoni, fe'i gwahoddir ef/hi fel arfer i fynychu seremoni ddiweddarach. Os na fydd ef/hi yn gallu mynychu'r seremoni ddiweddarach, yna fel rheol ni chyflwynir y dyfarniad.

    d. Gwneir penderfyniadau gan gyfeirio at y tebygolrwydd y bydd derbynnydd fel arfer mewn sefyllfa i fod â, neu ddatblygu, perthynas barhaus â'r Brifysgol ac i gyfrannu at fywyd y Brifysgol a'i chymunedau.

    e. Gwneir penderfyniadau gan gyfeirio at ymrwymiad y Brifysgol i gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn enwedig y ffaith y byddai'n ddymunol sicrhau bod dyfarniadau'n adlewyrchiad priodol o amrywiaeth cymuned y Brifysgol. I'r perwyl hwn, bydd proffil

amrywiaeth yr enwebiadau a'r canlyniadau yn cael ei fonitro a bydd dadansoddiad yn cael ei baratoi ar gyfer y Pwyllgor gan y Clerc.

**Cyngor**

14. Mae croeso i unigolyn sy'n dymuno trafod enwebiad posibl gysylltu â'r Is-Ganghellor neu Glerc y Cyngor. Dylid cysylltu â'r Clerc drwy llywodraethu@pcydds.ac.uk yn y lle cyntaf.

**Sarah Clark**
**Clerc y Cyngor**
**Ionawr 2021 / Diweddarwyd Ionawr 2022 / Adolygwyd Hydref 2022 / Adolygwyd Hydref 2023 / Adolygwyd Hydref 2024**